Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adolygiad Dilynol o Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro


**Blwyddyn yr Archwiliad:** 2015

**Cyhoeddwyd:** Hydref 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 436A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Aelodau'r tîm a gyflawnodd y gwaith hwn oedd Gabrielle Smith a Delyth Lewis.

# Cynnwys

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael ag argymhellion i wella gwasanaethau maeth ac arlwyo. Mae angen rhagor o waith i gryfhau rhai agweddau ar y broses sgrinio maethol, i sicrhau bod yr holl staff nyrsio yn ymgysylltu yn ystod prydau bwyd cleifion ac i leihau'r bwlch rhwng cost gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion a'r incwm a gynhyrchir.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cefndir | 4 |
| Ein canfyddiadau | 5 |
| Argymhellion | 7 |
| Adroddiad manwl | |
| Mae trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maethol cleifion yn parhau i wella ond mae angen cryfhau prosesau sgrinio a dogfennu | 9 |
| Mae lle o hyd i wella profiadau amser bwyd i rai cleifion | 15 |
| Mae cost gwasanaethau arlwyo i gleifion yn cael ei rheoli'n well ond mae'r incwm o wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn parhau'n annigonol | 20 |
| Mae trefniadau ar gyfer cynllunio, monitro ac adrodd ar wasanaethau maeth ac arlwyo mewn ysbytai yn gyffredinol gadarn | 27 |
| Atodiadau | |
| Dull archwilio | 30 |
| Argymhellion cenedlaethol a lleol | 32 |

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1. Mae gwasanaethau arlwyo mewn ysbytyai yn rhan hanfodol o ofal cleifion o ystyried bod prydau bwyd maethlon o ansawdd da yn rhan allweddol o adsefydlu ac adferiad y claf. Mae gwasanaethau arlwyo effeithiol yn ddibynnol ar waith cynllunio a chydlynu gofalus o amrywiaeth o brosesau gan gynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau i wardiau a chleifion. Mae'n gofyn am gyfathrebu da rhwng yr amrywiol staff perthnasol – yn rheolwyr, staff arlwyo, deietegwyr, nyrsys, staff cymorth a phorthorion.
2. Mae angen asesu a monitro statws maethol cleifion yn briodol, a rhoi trefniadau ar waith i helpu cleifion i fwynhau eu pryd bwyd mewn amgylchedd sy'n eu cymell i fwyta. Y nod ddylai fod gwasanaeth arlwyo hyblyg a chost-effeithiol sy'n darparu dewis da o brydau maethlon sy'n gallu cydymffurfio â gofynion deietegol penodol y cleifion.
3. Yn 2010, bu i ni gynnal archwiliadau o faeth cleifion ac arlwyo mewn ysbytai ledled Cymru, i ddilyn y gwaith a wnaed eisoes gan y Comisiwn Archwilio yn 2002[1]. Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad[2], a oedd yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith hwn. Casglodd yr Archwilydd Cyffredinol fod trefniadau arlwyo a gofal maethol a ddarparwyd i gleifion wedi gwella'n gyffredinol a bod boddhad cleifion wedi parhau'n uchel. Serch hynny, roedd angen gwneud mwy, er mwyn sicrhau bod arferion da cydnabyddedig yn cael eu gweithredu'n ehangach, yn enwedig o ran sgrinio maethol a chynllunio gofal, a sicrhau bod gwastraff bwyd yn cael ei leihau i'r eithaf.
4. Yn ystod hydref 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y 'Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Bwyd a Hylif i Gleifion Preswyl mewn Ysbyty'. Mae'r safonau hyn yn disodli'r fframwaith maeth ac arlwyo 2002 ac yn rhoi arweiniad technegol i staff sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion maethol cleifion[3]. Mae'r safonau hefyd yn pennu'r cynnwys maethol sydd ei angen er mwyn darparu ar gyfer anghenion amryfal poblogaeth yr ysbyty. Roedd hi'n ofynnol i gyrff y GIG gydymffurfio'n llawn â'r safonau erbyn mis Ebrill 2013.

---

[1] Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, **Portffolio Ysbytai Acíwt – Adolygiad o ganfyddiadau cenedlaethol ar alwyo**, Mawrth 2002

[2] www.archwilio.cymru/cy/cyhoeddi/arlwyo-maeth-cleifion-mewn-ysbytai

[3] Mae'r safonau maeth ac arlwyo'n ceisio diwallu anghenion maethol cleifion sy'n gallu bwyta ac yfed. Nid yw cleifion sy'n cael maeth parenterol neu enterol, sef maethynnau wedi'u rhoi drwy wythïen neu'n uniongyrchol i'r system gastroberfeddol, yn cael eu cynnwys yn y safonau hyn.

**5.** Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r safonau hyn, cydweithiodd arlwywyr a deietegwyr o bob cwr o Gymru i gynhyrchu Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan, a gafodd ei lansio ddiwedd mis Ionawr 2013. Mae'r fframwaith yn cynnwys cronfa ddata o gyfres o eitemau bwydlen y cytunwyd arnynt, cyfres o ryseitiau a dulliau coginio safonol, dadansoddiad maethol o bob eitem ar y fwydlen er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau maeth ac arlwyo, detholiad o fyrbrydau sy'n cydymffurfio â'r safonau ac sy'n cael eu caffael trwy gontractau Cymru gyfan.

**6.** Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cynnal diddordeb craff yn y materion y mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw atynt, gan gymryd tystiolaeth oddi wrth dystion a chyhoeddi ei adroddiad ei hun ym mis Chwefror 2012[4]. Yn 2014, rhoes yr Archwilydd Cyffredinol ei air i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y byddai'n cynnal gwaith dilynol priodol i fonitro'r ffordd y mae cyrff y GIG wedi rhoi ei argymhellion cenedlaethol a lleol ar waith. Roedd yr ymrwymiad hwn yn cynnwys ystyried canfyddiadau unrhyw adolygiadau dilynol a gynhaliwyd yng nghyrff y GIG ers 2010.

# Ein prif ganfyddiadau

**7.** Rhwng misoedd Mawrth a Mehefin 2015, bu i ni gynnal gwaith dilynol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) i asesu'r graddau roedd argymhellion cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol wedi'u rhoi ar waith[5]. Hefyd, bu i ni asesu'r graddau roedd y Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed fel o'r archwiliad lleol yn 2010 ac eto yn 2013.

**8.** Daethom i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael ag argymhellion i wella gwasanaethau maeth ac arlwyo. Mae angen rhagor o waith i gryfhau rhai agweddau ar y broses sgrinio maethol, i ymgysylltu'r holl staff nyrsio yn ystod prydau bwyd cleifion, ac i leihau'r bwlch rhwng cost gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion a'r incwm a gynhyrchir. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maethol cleifion yn parhau i wella ond mae angen cryfhau prosesau sgrinio a dogfennu:
  - er bod cleifion yn cael eu sgrinio o safbwynt maeth, nid yw'r holl gleifion yn cael eu pwyso, nid oes cynlluniau gofal ar waith neu nid ydynt yn cael eu dilyn ym mhob achos, ac mae bylchau mewn gwybodaeth sgrinio yn peryglu ansawdd y broses;
  - mae cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethol yn cael ei hasesu a'i hadrodd fel mater o drefn, yn lleol ac yn gorfforaethol, a chaiff camau eu cymryd i fynd i'r afael â diffygion yn y broses sgrinio;

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**, Chwefror 2012

[5] Nodir ein dull archwilio yn Atodiad 1. Mae cwmpas y gwaith archwilio'n ymwneud yn benodol â chleifion mewnol sy'n oedolion sy'n gallu bwyta ac yfed yn normal.

- mae trefniadau cyfredol yn sicrhau bod gan gleifion fynediad at fwyd a diod 24 awr y dydd ac mae cydymffurfiaeth yn cael ei monitro'n rheolaidd;
  - asesir eitemau'r fwydlen o ran maeth drwy'r fframwaith bwydlenni Cymru gyfan y mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio ag ef;
  - ychydig iawn o wybodaeth ysgrifenedig sydd ar gael i gleifion am yr hyn y gallant ei ddisgwyl mewn ysbyty yn gyfyngedig.
- Mae lle o hyd i wella profiadau amser bwyd i rai cleifion:
  - ar y cyfan mae cleifion yn gadarnhaol ynghylch gwasanaethau bwyd ond nid oes digon o ddewis i rai cleifion;
  - mae cymorth a goruchwyliaeth gan nyrsys adeg prydau bwyd yn brin ar rai wardiau;
  - mae egwyddorion diogelu amseroedd bwyd wedi'u sefydlu'n ehangach na chynt.
- Mae cost gwasanaethau arlwyo i gleifion yn cael ei rheoli'n well ond mae'r incwm o wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn parhau'n annigonol:
  - mae cost gwasanaethau arlwyo i gleifion yn lleihau a chost prydau fesul claf yn cymharu'n dda â chyrff eraill y GIG;
  - mae canllawiau clir ar yr hyn sy'n cyfrif fel prydau heb eu gweini a gwastraff ar blât, ac mae'r gwastraff sydd heb ei weini yn is na'r targed cenedlaethol;
  - mae gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn parhau i wneud colled ariannol ond mae'r bwlch rhwng y gost a'r incwm yn lleihau.
- Mae trefniadau ar gyfer cynllunio, monitro ac adrodd ar wasanaethau maeth ac arlwyo mewn ysbytai yn gyffredinol gadarn:
  - mae trefniadau sefydlog ar waith drwy'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo er mwyn sicrhau bod polisïau a safonau cenedlaethol yn cael eu gweithredu;
  - mae trefniadau corfforaethol ar gyfer monitro'r llwybr gofal maethol ac ansawdd bwyd wedi'u hen sefydlu ond mae gwybodaeth am wastraff a chostau yn llai gweladwy; ac
  - mae mecanweithiau effeithiol ar waith i gofnodi a gweithredu ar adborth cleifion ynghylch maeth ac arlwyo.

**9.** Mae canfyddiadau manwl o'r gwaith archwilio wedi'u crynhoi ym mhrif gorff yr adroddiad hwn.

# Argymhellion

**10.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyr gyflawni 38 o'r 47 argymhelliad a bennwyd cynt yn ein hadroddiadau cenedlaethol a lleol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio ar weithredu'r argymhellion sy'n weddill lle'r adroddir bod cynnydd priodol ar waith ond heb ei lwyr gyflawni, neu lle'r oeddem yn ystyried nad oedd cynnydd digonol neu unrhyw gynnydd o gwbl wedi'i wneud. Mae'r argymhellion hyn wedi'u nodi yn Ffigur 1. Nodir rhestr lawn o argymhellion cenedlaethol a lleol, ynghyd â statws pob argymhelliad, yn Atodiad 2.

Ffigur 1: Argymhellion cenedlaethol a lleol sydd heb eu cyflawni eto ym mis Gorffennaf 2015

| | |
|---|---|
| **Sicrhau bod anghenion maethol cleifion yn cael eu diwallu** | |
| A1b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG ddefnyddio'r canlyniadau a gyflwynwyd yn ein hadroddiadau archwilio lleol fel sail dros sicrhau eu bod yn gweithredu Llwybr Gofal Maeth Cymru gyfan yn effeithiol; yn benodol mae'n rhaid iddynt sicrhau bod prosesau sgrinio maethol yn nodi'n effeithiol bob claf sydd â phroblemau maeth, neu sy'n wynebu risg o'u datblygu, a bod cynlluniau gofal a gweithgareddau monitro priodol yn cael eu sefydlu (cenedlaethol). |
| A9 | Trwy'r fforwm hanfodion gofal, monitro effeithiolrwydd y system hambwrdd coch, y dull o'i weithredu a'i ddatblygiad, a'r systemau goleuadau traffig newydd (lleol 2010). |
| A11 | Gwella'r offeryn asesu maeth i gynnwys asesiad o iechyd y geg a'r gallu i gyfathrebu (lleol 2010). |
| **Gwella profiad cleifion o amser bwyd** | |
| A3a | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG sicrhau bod eu bwydlenni yn cynnig dewis priodol o fwyd a bod y trefniadau ar gyfer archebu a gweini bwyd yn cefnogi dewis digonol i gleifion (cenedlaethol). |
| A3b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG adolygu eu harferion ar lefel ward er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu helpu i fod yn gyfforddus cyn cael eu bwyd, ac yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn i'r pryd o fwyd gael ei weini (cenedlaethol). |
| **Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo** | |
| A4b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG gyflwyno systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol, wedi'u hategu gan ddadansoddiad clir o gost a budd o'u cymharu â'r systemau gwybodaeth presennol â llaw (cenedlaethol). |
| A7a | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG bennu polisïau prisio a thargedau cynhyrchu incwm sydd â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn adennill costau o leiaf, neu, os nad ydynt yn gwneud hynny, bod hynny o ganlyniad i bolisi cymorthdalu bwriadol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad manwl o gostau (cenedlaethol). |
| A2 | Dylai'r Grŵp Cymhorthdal Bwytai nad ydynt ar gyfer Cleifion ganolbwyntio mwy ar ddangosyddion perfformiad allweddol er mwyn cyrraedd y targed o gymhorthdal sero ar gyfer gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion (lleol 2013). |

**Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol**

A10b Argymhellwn y dylai cyrff y GIG goladu gwybodaeth o sgrinio maethol yn systematig am nifer y cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod yn wynebu risg o gael problemau maeth er mwyn deall maint y broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau arlwyo a maeth i ddiwallu anghenion y cleifion hyn (cenedlaethol).

# Adroddiad Manwl

## Mae trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maethol cleifion yn parhau i wella ond mae angen cryfhau prosesau sgrinio a dogfennu

**11.** Yn 2010, roedd llawer o ysbytai yng Nghymru wedi gwella'u trefniadau i sicrhau bod anghenion deietegol a maethol cleifion yn cael eu diwallu, ond roedd gwybodaeth yn ddarniog ac nid oedd modd cael trosolwg cyflym o broblemau maethol cleifion neu adolygu statws maethol yn hawdd. Hwyrach bod prinder dogfennau nyrsio safonol i gofnodi gwybodaeth asesu allweddol wedi cyfrannu at yr amrywiaeth ansawdd ymhlith cofnodion nyrsio ac nid oedd holl gyrff y GIG yn monitro cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethol yn rheolaidd.

**12.** Bryd hynny, roedd sgrinio maethol wedi ennill ei blwyf ar lefel y Bwrdd Iechyd, ac roedd cynlluniau gofal maethol yn cael eu paratoi ar gyfer y cleifion hynny oedd eu hangen, gyda chymeriant bwyd a diod yn cael eu monitro'n briodol. Serch hynny, roedd lle i wella'r broses asesu maethol trwy gynnwys asesiad o iechyd y geg a'r gallu i gyfathrebu. Nid oedd y ffactorau hyn yn rhan o sgrinio maethol ar lefel y Bwrdd Iechyd ac roedden nhw'n destun asesiadau risg ar wahân. Canfu gwaith archwilio dilynol yn 2013 nad oedd y naill ffactor na'r llall wedi'u hymgorffori yn y broses sgrinio maethol.

## Er bod cleifion yn cael eu sgrinio o safbwynt maeth, nid yw'r holl gleifion yn cael eu pwyso, nid oes cynlluniau gofal ar waith neu'n cael eu dilyn bob tro, ac mae bylchau mewn gwybodaeth sgrinio yn peryglu ansawdd y broses

**13.** Fel rhan o'n gwaith yn 2015, bu i ni adolygu cyfres o nodiadau cleifion ar bob un o'r pedair ward yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r archwiliad; 19 o nodiadau cleifion i gyd. Bu i ni asesu a oedd staff nyrsio wedi sgrinio cleifion o ran maeth wrth eu derbyn, wedi ail-gynnal y broses o leiaf bob wythnos, ac ansawdd y broses sgrinio maethol. Gwelsom fod staff nyrsio yn sgrinio ac ailsgrinio cleifion fel mater o drefn gan ddefnyddio offeryn sgrinio maethol WAASP[6] ond nid oedd pob claf yn cael ei bwyso o fewn 24 awr i'w dderbyn ac ni chofnodwyd rheswm am y diffyg. Nid oedd pwysau hunan-gofnodedig y claf yn cael ei gofnodi chwaith.

---

[6] Weight Appetite Ability to Eat – Stress Fractures and Pressure Sores (WAASP) – offeryn sgrinio maethol a ddatblygwyd ac a ddilyswyd gan yr Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro flaenorol. Nid yw'r offeryn WAASP yn cofnodi gwybodaeth am daldra ac felly nid yw mynegai mas y corff (BMI) yn cael ei gofnodi ond mae'r BMI yn un elfen o fframwaith asesu risg Waterlow.

**14.** Mae Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan yn ei gwneud yn glir bod iechyd y geg a chyfathrebu yn rhan o ofal maeth ond dywedodd staff ar y wardiau wrthym nad oedd asesu iechyd y geg yn arfer rheolaidd, oni bai bod problemau yn amlwg. Canfu ein hadolygiad fod gwybodaeth am iechyd y geg wedi'i chofnodi mewn pump allan o 19 o nodiadau cleifion, tra bod nodiadau 14 o'r 19 o gleifion wedi cofnodi anawsterau cyfathrebu. Canfu'r archwiliad Hanfodion Gofal 2014, a gwblhawyd ar lefel y Bwrdd Iechyd rhwng Hydref a Thachwedd 2014, gydymffurfiaeth wael ag asesu iechyd y geg hefyd, gydag un claf o bob tri â chofnod o asesiad.

**15.** Mae 'Polisi Maeth ac Arlwyo Cleifion Mewnol' y Bwrdd Iechyd yn nodi, yn ogystal â sgrinio maethol, y dylai asesiad o anghenion deietegol y claf fod yn rhan o'r cynllun gofal maethol, er enghraifft, gallu claf i gyfleu ei ddymuniadau o ran bwyd a diod, y cymorth sydd ei angen arno i fwyta, neu angen deietegol therapiwtig neu ddiwylliannol arbennig. Roedd bylchau yn y wybodaeth hon, yn ogystal â gwybodaeth am chwant bwyd a chymeriant deietegol arferol, ffactorau y byddem yn disgwyl eu gweld fel rhan o'r broses dderbyn a sgrinio. Gall hyn fod yn rhannol o ganlyniad i ddiffyg cymhellion i gael disgrifiad manylach o'r broblem a'r cymorth sydd ei angen.

**16.** Mae'r 'Gallu i fwyta' yn un o'r categorïau yn yr offeryn sgrinio WAASP ac mae'r categori hwn yn cael ei isrannu ymhellach. Un o'r is-adrannau hyn yw'r 'gallu i fwyta ac yfed yn annibynnol' neu 'angen atgoffa, annog neu gynorthwyo'r claf'. Nid oes arwydd clir serch hynny a yw cymorth yn gyfystyr â help i fwyta, eistedd i fyny yn y gwely, codi o'r gwely ac ati.

**17.** Mae'r categori 'gallu i fwyta' hefyd yn cynnwys anawsterau wrth lyncu. Nododd deg o'r 19 o nodiadau cleifion fod gan y claf, neu y gallai fod ganddo, anawsterau wrth lyncu ond ni nodwyd a oedd atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau llyncu wedi'u gwneud a'u cyflawni. Bu i ni chwilio a dod o hyd i dystiolaeth yn y nodiadau meddygol fod atgyfeiriadau wedi'u gwneud ac asesiadau wedi'u cynnal ar gyfer anawsterau llyncu'r 10 claf hyn.

**18.** Nid oedd pymtheg o'r 19 o nodiadau wedi cofnodi gofynion ffordd o fyw, therapiwtig neu ddiwylliannol cyfredol y claf mewn perthynas â bwyd a diod ac nid oedd 16 o'r 19 o nodiadau yn dangos cymeriant deietegol arferol y claf. Yn hytrach, ymddengys fod dibyniaeth ar gynlluniau gwelyau maeth a hylif i gofnodi'r wybodaeth hon, ynghyd â hoffterau deietegol a'r angen i addasu gwead eu prydau.

**19.** Roedd staff nyrsio'n defnyddio cynlluniau gofal cyffredinol a oedd yn amrywio o ran arddull a fformat rhwng y wardiau ysbyty i ni ymweld â nhw. Roedd cynlluniau gofal maethol yn absennol ar gyfer dau o'r 19 o gleifion. Roedd y cynlluniau gofal yn defnyddio dull ticio bocs i nodi pa ofal y dylid ei roi. Mewn rhai enghreifftiau, nid oedd camau a gynlluniwyd, a oedd wedi'u nodi â thic, yn cael eu cyflawni. Er enghraifft, roedd cynlluniau gofal ar gyfer tri chlaf yn nodi y dylai cymeriant hylif gael ei fonitro gan ddefnyddio'r siart cydbwysedd hylif. Serch hynny, dim ond hylif a yfwyd adeg prydau bwyd oedd yn cael ei gofnodi ar y siart bwyd Cymru gyfan. Ar gyfer dau o'r 19 o gleifion, ni chofnodwyd cymeriant bwyd er bod y cleifion hyn wedi'u nodi fel rhai a oedd mewn perygl cymedrol neu uchel, a'u bod yn colli pwysau. Pan gofnodwyd cymeriant cleifion, roedd gwybodaeth am faint y dogn a fwytawyd ar goll.

**20.** Mae gan y Bwrdd Iechyd ystod o fecanweithiau ar waith i nodi'r cleifion hynny sydd angen cymorth i fwyta neu yfed. Maent yn cynnwys y cynllun gwelyau maeth a hydradu, y daflen 'talgrynnu bwriadol', sy'n nodi lefel y cymorth sydd ei angen, y cynllun pili pala ar gyfer y cleifion hynny sydd â phroblem wybyddol a'r byrddau 'cipolwg' ar gleifion. Gwelsom y mecanweithiau gwahanol hyn ar waith wrth i ni ymweld â wardiau ond mae perygl nad yw'r mecanweithiau hyn wedi'u cysylltu â'r broses sgrinio gan beri bod bylchau mewn gwybodaeth sgrinio.

**21.** Yn ystod ein gwaith maes, dywedodd staff y wardiau wrthym y byddai dogfennaeth nyrsio safonol Cymru gyfan, gan gynnwys cymhellion ar gyfer gwybodaeth benodol am weithgareddau bywyd bob dydd, fel bwyta ac yfed, yn cael eu cyflwyno ddiwedd yr haf. Dylai'r ddogfennaeth safonol hon hyrwyddo gwelliannau yn ansawdd y wybodaeth a gesglir.

## Mae cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethol yn cael ei hasesu a'i hadrodd fel mater o drefn, yn lleol ac yn gorfforaethol, a chaiff camau eu cymryd i fynd i'r afael â diffygion yn y broses sgrinio

**22.** Yn 2010, nid oedd pob corff y GIG wedi monitro cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethol a bu i ni argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu trefniadau ar gyfer asesu cydymffurfiaeth fel mater o drefn. Erbyn 2013, roedd y Bwrdd Iechyd yn treialu systemau i fonitro ac adrodd ar gydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethol.

**23.** Mae 'Polisi Maeth ac Arlwyo Cleifion Mewnol' y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn datgan y dylid cofnodi cydymffurfiaeth â sgrinio maethol bob mis gan ddefnyddio'r system fetrig nyrsio Cymru gyfan ac roedd hyn yn amlwg o'n hymweliadau ag Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Llandochau. Mae staff deietegol hefyd yn archwilio defnydd y staff nyrsio o'r offeryn sgrinio WAASP o safbwynt ansawdd a chydweithredu, ac mae canfyddiadau'r archwiliad yn cael eu rhannu ar unwaith gyda staff y ward. Mae'r offeryn archwilio'n asesu a yw:

- sgrinio wedi'i wneud o fewn 24 awr i dderbyn y claf;
- pwysau wedi'i gofnodi ac, os nad ydyw, a ellid fod wedi pwyso'r claf;
- y sgôr risg yn gywir a chleifion yn cael eu hail-sgrinio yn ôl y sgôr risg;
- cleifion sydd â sgôr risg uwch na saith yn cael eu hatgyfeirio at staff deietegol.

**24.** Mae amserlen o archwiliadau'n sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar draws safleoedd yr ysbyty. Er enghraifft, cynhelir un archwiliad yr wythnos yn yr Ysbyty Athrofaol. Canfu archwiliad deietegol diweddar fod cydymffurfio â sgrinio maethol a phwyso o fewn 24 awr i dderbyn claf yn llai cadarnhaol na chanfyddiadau ein hadolygiad o nodiadau cleifion. Yn arbennig, canfu staff deietegol fod:

- ychydig dros hanner y cleifion wedi'u sgrinio o fewn 24 awr;
- llai nag un claf o bob pump wedi'u pwyso o fewn 24 awr tra bod mwyafrif y cleifion nad oedd wedi'u pwyso, yn ôl staff deietegol, yn ddigon iach i gael eu pwyso;
- y sgôr risg wedi'i barnu'n gywir ar gyfer ychydig llai na hanner y cleifion sy'n golygu bod y rhai a bennwyd yn y grŵp risg uchel yn colli'r cyfle i gael atgyfeiriad deietegol;
- dau glaf y nodwyd gan staff nyrsio eu bod yn y grŵp risg uchel pan gawsant eu derbyn heb gael eu hatgyfeirio at ddeietegwyr.

**25.** Adroddir bod cydymffurfiaeth â sgrinio maethol yn ddangosydd perfformiad allweddol (canran sgorau maeth wedi'u cyflawni a chamau priodol wedi'u cymryd o fewn 24 awr i dderbyn claf) yn adroddiadau perfformiad y Bwrdd. Yn y cyfarfod diweddaraf o'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2015, roedd lefel cydymffurfio yn 94 y cant, sydd ychydig yn is na tharged trothwy'r Bwrdd sef 95 y cant.

**26.** Yn 2010, nid oedd dim rhaglenni hyfforddiant neu sesiynau gloywi rheolaidd ar gyfer staff wardiau er mwyn cynnal ymwybyddiaeth o ddefnyddio'r offer sgrinio maethol a dogfennaeth asesu. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru becyn hyfforddi e-ddysgu ar ddefnyddio'r llwybr gofal maethol Cymru gyfan a siartiau bwyd a hylif Cymru gyfan ym mis Medi 2011. Roedd yn ofynnol i'r holl staff a oedd yn nyrsio ar wardiau gwblhau'r pecyn hyfforddiant e-ddysgu o fewn 12 mis i'r dyddiad hwn tra byddai disgwyl i staff newydd ei gwblhau o fewn 12 mis i'w penodi. Mae pedwar deg pump y cant o staff nyrsio'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio, ac mae cydymffurfiaeth yn cael ei fonitro gan y Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo. Yn ystod ein hymweliadau â wardiau, gwelsom dystiolaeth fod rhai rheolwyr wardiau wrthi'n monitro cydymffurfiaeth â'r pecyn e-ddysgu, ac yn arddangos ffigurau cydymffurfio. Ar wardiau eraill, roedd staff yn llai sicr bod yr hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau.

**27.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu gweithgor nyrsio ar faeth a hydradu, sy'n atebol i'r dirprwy gyfarwyddwr nyrsio. Sefydlwyd y gweithgor i weithredu'r agenda maeth a hydradu, ac un o'i dasgau yw datblygu a threialu rolau hyrwyddwr maeth. Yn y cyfamser, mae cydweithrediad parhaus rhwng staff deietegol a staff nyrsio er mwyn gwneud hyfforddiant maeth yn rhan annatod o becynnau hyfforddiant cyfredol.

**28.** Yn y Bwrdd Iechyd yn 2010, roedd angen adolygu hyfforddiant ar gyfer staff arlwyo ar wardiau er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o faeth ac o anghenion maethol cleifion. Erbyn 2013, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno hyfforddiant maethol sylfaenol ar gyfer y staff hyn ond heb ei gyflwyno'n llawn ar y pryd. Canfu ein harchwiliad diwethaf fod staff arlwyo wedi cael hyfforddiant gorfodol ar faeth, deietau therapiwtig, gofal cwsmeriaid a diogelwch bwyd. Yn ogystal, mae'r fideo 'Come dine with us…' yn cefnogi rhaglen hyfforddiant amlddisgyblaeth ar brofiad prydau bwyd cleifion ac fe'i hystyrir yn adnodd allweddol yn sesiynau sefydlu staff.

## Mae trefniadau cyfredol yn sicrhau bod gan gleifion fynediad at fwyd a diod 24 awr y dydd ac mae cydymffurfiaeth yn cael ei monitro'n rheolaidd

**29.** Yn 2010, gwelsom fod gan fwyafrif yr ysbytai drefniadau ar waith i ddarparu byrbrydau ond nododd llawer o gleifion nad oedd byrbrydau ar gael rhwng prydau bwyd. Nododd Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan y dylid cynnig byrbrydau ddwywaith neu deirgwaith y dydd, gan gynnig byrbryd gyda'r nos i'r holl gleifion am fod bwlch mawr rhwng pryd olaf y dydd a brecwast.

**30.** Yn y Bwrdd Iechyd, mae byrbrydau ar gael rhwng prydau ac ar gyfer cleifion sy'n colli pryd bwyd. Mae amrywiaeth o fyrbrydau, fel bisgedi, ffrwythau ffres, iogwrt, caws a chracers a brechdanau yn ogystal â bwyd sylfaenol fel bara, grawnfwyd a llaeth yn cael eu storio yng ngheginau wardiau. Lluniodd staff deietegol gyfarwyddyd syml i gleifion am fyrbrydau sy'n addas ar gyfer archwaeth wan a'r amserau pan fo byrbrydau ar gael fel rheol. Mae byrbrydau'n cael eu cynnig yn ystod rownd diodydd ganol y bore a chanol y prynhawn ond gall cleifion ofyn i staff nyrsio a staff arlwyo sy'n gweithio ar y ward am fyrbryd unrhyw adeg o'r dydd. Yn ystod ein hymweliadau ni â'r wardiau, gwelsom staff arlwyo'r ward neu staff cymorth deietegol yn paratoi'r byrbrydau ar gyfer canol y prynhawn.

**31.** Mae 'offeryn archwilio profiad amser bwyd' y Bwrdd Iechyd hefyd yn asesu a yw byrbrydau ar gael yng nghegininau wardiau ac yn cael eu cynnig yn ystod y rownd diodydd, ac roedd yr archwiliadau diweddar yn dangos cydymffurfiaeth dda. Canfu archwiliad Hanfodion Gofal 2014 fod ardaloedd wardiau'n cydymffurfio'n llawn â darparu amrywiaeth o fyrbrydau i gleifion a oedd wedi colli pryd bwyd neu a oedd eisiau bwyd rhwng prydau gyda 90 y cant o gleifion bob amser neu fel arfer yn cael bwyd a byrbrydau maethlon.

**32.** Mae'r safonau ar gyfer bwyd a hylif cleifion yn nodi y dylid cael saith neu wyth cynnig o ddiod bob dydd, gan gynnig diodydd poeth ac oer ac y dylid newid y dŵr yn y jygiau deirgwaith y dydd. Canfu archwiliad Hanfodion Gofal 2014 fod dŵr yfed ar gael ac o fewn cyrraedd y claf, ac roedd 70 y cant o wardiau'n cyflawni saith neu fwy o rowndiau diodydd y dydd a'r jygiau dŵr yn cael eu hail-lenwi deirgwaith y dydd. Canfu archwiliadau amlddisgyblaeth o'r profiad amser bwyd fod y jygiau dŵr yn cael eu hail-lenwi ddwywaith mewn cyfnod o 24 awr, gyda chleifion a staff nyrsio'n adrodd bod pedwar neu bump rownd o ddiodydd poeth y dydd. Yn ystod ein hymweliadau â wardiau, dywedodd rheolwyr wardiau a staff arlwyo'r wardiau wrthym ei bod yn dipyn o her i ddarparu saith neu wyth rownd o ddiodydd y dydd a bod jygiau dŵr yn cael eu newid ddwywaith y dydd fel rheol. Yn ôl adborth cleifion a gasglwyd fel rhan o'r holiadur 'Dwy funud o'ch amser' gwelwyd bod 95 y cant o gleifion bob amser yn cael diod os ydyn nhw eisiau un.

## Asesir eitemau'r fwydlen o ran maeth drwy'r fframwaith bwydlenni Cymru gyfan y mae'r Bwrdd iechyd yn cydymffurfio ag ef

**33.** Yn 2010, gwelsom fod deietegwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o lunio bwydlenni ym mhob ysbyty ond nid oedd yr holl fwydlenni ysbyty wedi'u hasesu o ran maeth. Yn y Bwrdd Iechyd, roedd deietegwyr yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o lunio bwydlenni ac yn asesu cynnwys maethol y ryseitiau safonol a oedd wedi'u prisio a ddefnyddiwyd gan staff arlwyo. Ers hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan, sy'n pennu'r lleiafswm o 12 o faetholion i'w dadansoddi. Nododd y Bwrdd Iechyd ei fod yn cydymffurfio'n llwyr â'r fframwaith bwydlenni Cymru gyfan ac yn defnyddio'r ryseitiau yn y gronfa ddata i greu bwydlenni ar gyfer cleifion. Mae'r grŵp bwydlenni gweithredol amlddisgyblaeth yn mynd ati i lunio bwydlenni i fodloni'r gofynion egni a'r gofynion lleiaf o ran maetholion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at grŵp fframwaith bwydlenni Cymru gyfan lle trafodir cydymffurfiaeth â'r fframwaith bwydlenni a safonau maeth ac arlwyo, yn ogystal â'r ffordd o integreiddio hyn ym mecanweithiau adrodd gyda sefydliadau'r GIG.

**34.** Nododd staff hefyd, yn sgil y grŵp cynghori ar nwyddau sy'n cydweithio â'r deietegydd caffael, sy'n seiliedig ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, ei bod yn ofynnol i gyflenwyr bwyd ddarparu gwybodaeth faethol am eu cynnyrch er mwyn asesu cydymffurfiaeth â safonau maethol.

## Ychydig iawn o wybodaeth ysgrifenedig sydd ar gael i gleifion am yr hyn y gallant ei ddisgwyl mewn ysbyty

**35.** Mae Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan 2011 yn dweud yn glir y dylid darparu gwybodaeth i gleifion a'u gofalwyr am yr hyn y gallant ei ddisgwyl mewn perthynas â phrydau bwyd a byrbrydau pan fyddant yn yr ysbyty. Yn 2012, cyhoeddodd y Prif Swyddog Meddygol a Phrif Swyddog Nyrsio Cymru lythyr ar y cyd mewn perthynas â darpariaethau bwyd ac arlwyo mewn ysbytai gan ofyn i gyrff y GIG roi'r wybodaeth i gleifion a nodir yn nhaflen yr Archwilydd Cyffredinol 'Eating Well in Hospital – What You Should Expect'. Dywedodd staff y wardiau wrthym nad oedd cleifion yn cael gwybodaeth fel mater o drefn am y modd y bydd eu hanghenion neu ddewisiadau deietegol neu faethol yn cael eu diwallu pan font yn yr ysbyty. Ac eithrio'r daflen canllawiau ar fyrbrydau, ni fu i ni ddarganfod gwybodaeth ysgrifenedig a ddarperir i gleifion mewnol sy'n oedolion. Mae disgrifiad cryno o wasanaethau arlwyo ac amserau bwyd wedi'u diogelu yr ysbyty plant wedi'u nodi yn llyfryn y Bwrdd Iechyd i deuluoedd a phlant. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod bwlch yn y wybodaeth ar gyfer ardaloedd cleifion mewnol eraill. Mae wedi mynd ati i baratoi llawlyfr i gleifion a fydd yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau bwyd. Bydd y llawlyfr ar gael yn fuan a bydd copïau niferus ar gael ar bob ward ac ar wefan y Bwrdd Iechyd.

# Mae lle o hyd i wella profiadau amser bwyd i rai cleifion

**36.** Yn 2010, darparodd y rhan fwyaf o ysbytai ddewis priodol o brydau ac roedd cleifion ar y cyfan yn fodlon â'r bwyd roedden nhw wedi'i dderbyn. Serch hynny, nid oedd pob claf wedi cael y cymorth angenrheidiol adeg prydau bwyd a gellid gwneud rhagor i sefydlu egwyddorion amserau bwyd wedi'u diogelu ar rai wardiau. Yn y Bwrdd Iechyd, gellid gwneud rhagor i baratoi amgylchedd y ward adeg prydau bwyd fel ei fod yn fwy addas i gleifion fwynhau eu bwyd ac roedd llawer o wardiau'n dal i fod heb fabwysiadu amserau bwyd wedi'u diogelu hyd yma. Gan fwyaf, roedd trefniadau arlwyo'n ddigon hyblyg i gefnogi dewis y cleifion ond nid oedd cleifion yn cael y pryd bwyd cywir bob tro.

**37.** Yn y Bwrdd Iechyd, defnyddiwyd staff cymorth deietegol ar rai wardiau, a oedd yn gweithio'n dda o ran nodi cleifion a oedd angen cymorth i fwyta ac yfed a sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu. Yn 2010, ac eto yn 2013, bu i ni argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd ganfod manteision ymestyn mynediad at gymorth deietegol adeg prydau bwyd. Roedd defnyddio system hambwrdd coch adeg prydau bwyd i ddangos pa gleifion oedd angen cymorth i fwyta wedi'i fabwysiadu'n eang ond roedd y defnydd a wnaed ohono o ward i ward yn amrywio. Pan i ni arolygu'r cynnydd yn 2013, gwelsom fod y Bwrdd Iechyd yn monitro'r defnydd o'r weithdrefn hambwrdd coch ond roedd y sefyllfa'n parhau i fod yn anghyson wrth i waith barhau i sefydlu egwyddorion amserau bwyd wedi'u diogelu.

## Ar y cyfan mae cleifion yn gadarnhaol ynghylch gwasanaethau bwyd ond nid oes digon o ddewis i rai cleifion

**38.** Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu bwydlen wythnosol. Ar ddechrau 2015, lleihaodd yr adran arlwyo y dewis oedd ar gael ar gyfer bwydlen swper ar benwythnosau i wella effeithlonrwydd costau. Yn sgil y penderfyniad hwnnw, cafodd y Bwrdd Iechyd gyhoeddusrwydd anffafriol. Newidiodd yr adran ei phenderfyniad ac yn ystod yr archwiliad dywedodd staff fod y dewis ar y fwydlen yn awr yr un fath â gweddill yr wythnos. Yn y cyfamser, mae adborth gan gleifion mewn unedau arhosiad hir yn dweud nad oes digon o ddewis ymysg y fwydlen wythnosol. Mae grŵp cynllunio bwydlenni gweithredol y Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn ystyried a ddylid symud i gylch o bythefnos yn yr holl ardaloedd cleifion mewnol gan deilwra bwydlenni'n fwy ar gyfer unedau arhosiad hir. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp yn aros am ganfyddiadau arolwg fframwaith bwydlenni Cymru gyfan cyn mynd ati i newid y cylchoedd bwydlenni ac argraffu bwydlenni newydd. Mae rhagor o fwydlenni ar gael ar gyfer y cleifion hynny sydd â gofynion deietegol therapiwtig, diwylliannol neu grefyddol arbennig.

**39.** Mae arolwg y Bwrdd Iechyd, 'Dwy funud o'ch amser', yn casglu safbwyntiau cleifion ar agweddau pwysig ar ofal cleifion mewnol, megis bwyd blasus sy'n codi archwaeth ac a yw cleifion yn methu prydau am nad oes neb wedi'u helpu nhw neu eu bod angen diod ond nad oedd neb yn ei darparu. Yn gyffredinol, mae adborth cleifion yn gadarnhaol ond mae gwaith yn parhau er mwyn sicrhau bod prydau bwyd yn codi archwaeth ac yn cael eu gweini ar y tymheredd priodol, bod cleifion yn cael diodydd pan fyddan nhw'n gofyn amdanynt, a bod cymorth angenrheidiol yn cael ei ddarparu amser bwyd.

## Mae cymorth a goruchwyliaeth gan nyrsys adeg prydau bwyd yn brin ar rai wardiau

**40.** Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd asesiad o fanteision ehangu'r rôl cymorth deietegol ond nid yw nifer y staff cymorth deietegol ar wardiau wedi cynyddu. Mae'r penderfyniad i gynyddu'r garfan hon o staff yn cael ei drafod gyda nyrsys byrddau clinigol i'w ystyried fel rhan o gynllunio tymor canol integredig. Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i archwilio cyfleoedd i ddatblygu rolau ar gyfer gweithwyr cymorth proffesiynol generig yn hytrach na rhai sy'n canolbwyntio ar un proffesiwn.

41. Mae ‘Polisi Maeth ac Arlwyo Cleifion Mewnol’ y Bwrdd Iechyd yn nodi y dylid defnyddio cynlluniau gwelyau maeth a hydradu i nodi gofynion deietegol therapiwtig, diwylliannol a chrefyddol cleifion ac y dylai staff nyrsio a staff arlwyo gydweithio i sicrhau bod dewisiadau ac anghenion cleifion yn cael eu diwallu a bod yr holl staff nyrsio ar gael i helpu cleifion sydd angen cymorth i fwyta ac yfed. Wrth arsylwi ar wasanaethau bwyd amser cinio ar ddwy ward yn yr Ysbyty Athrofaol ac yn Ysbyty Llandochau, gwelsom fod:

- Staff arlwyo’r wardiau yn hyddysg am anghenion maethol cleifion a’u hoffterau deietegol, ac y byddent yn helpu i dorri’r bwyd yn ddarnau llai ac i agor pecynnau. Roedden nhw hefyd yn annog cleifion i fwyta, gan geisio’u perswadio trwy gynnig opsiynau eraill os byddent yn gwrthod bwyta pryd poeth.
- Ar y ddwy ward yn yr Ysbyty Athrofaol, roeddent yn dibynnu ar y staff cymorth deietegol i symud yn gyflym o’r naill glaf i’r llall i’w helpu i fwyta. Pan oedd staff nyrsio ar gael i helpu cleifion, nid oeddent yn dilyn trefn y droli bwyd bob tro. Mae’r arferion hyn yn cyferbynnu â’n harsylwadau yn Ysbyty Llandochau lle’r oedd yr holl staff nyrsio’n ymgysylltu’n llwyr â’r gwasanaeth cinio ac yn gweithio ochr yn ochr â staff arlwyo’r ward i weini ar gleifion ac i ddarparu cymorth parod wrth fwyta. Roedd hyn o gymorth mawr yn Llandochau lle’r oedd cleifion yn bwyta’u cinio yn yr ystafell ddydd ac nad oedd modd eu cysylltu’n hawdd â rhif gwely ar y cynllun gwelyau maeth a hydradu.
- Nid oedd unrhyw staff nyrsio ar un ward yn yr Ysbyty Athrofaol wedi mynd o gwmpas gyda staff arlwyo’r ward yn ystod y gwasanaeth bwyd ac roedd y staff arlwyo’n dibynnu ar y cynllun gwelyau maeth a hydradu er mwyn gwybod pa gleifion oedd ag anghenion deietegol neu faethol arbennig. Roedd y cynlluniau gwelyau wedi’u diweddaru pan oedd prydau’n cael eu paratoi ar gyfer y gwasanaeth amser cinio ond erbyn dechrau dosbarthu’r bwyd roedd un claf yn ‘nil by mouth’. Ar yr ail ward yn yr Ysbyty Athrofaol, gwelsom staff nyrsio’n gwneud gweithgareddau ac eithrio gweini prydau bwyd, megis ysgrifennu nodiadau neu gymryd eu hawr ginio eu hunain. Os byddai gan staff arlwyo unrhyw amheuon ynghylch gofynion claf, bydden nhw’n gwirio’r sefyllfa gyda’r staff nyrsio.
- Nid oedd y weithdrefn hambwrdd coch i ddangos pa gleifion oedd angen cymorth yn cael ei defnyddio ar yr holl wardiau i ni ymweld â nhw. Weithiau byddai’r bwyd yn cael ei weini i gleifion cyn y byddai’r staff nyrsio neu’r staff deietegol ar gael i’w helpu, felly gallai’r bwyd oeri a mynd yn ddiflas yn y cyfamser.

42. Canfu archwiliad Hanfodion Gofal 2014 fod y wardiau i gyd bron (95 y cant) â systemau ar waith i ganiatáu i deulu neu ffrindiau helpu gyda phrydau bwyd. Ar y pedair ward i ni ymweld â nhw, dywedodd staff nyrsio wrthym eu bod yn croesawu ac yn annog teulu a ffrindiau i helpu cleifion yn ystod amser bwyd. Yn ystod ein hymweliadau, gwelsom deuluoedd yn helpu eu perthnasau i fwyta. Yn y cyfamser, roedd 74 y cant o’r wardiau’n cydymffurfio â’r drefn o gael nyrs gofrestredig yn goruchwylio yn ystod prydau bwyd.

43. Yn Ffigur 2 gwelir y gwahaniaethau a arsylwyd gennym rhwng yr Ysbyty Athrofaol a Llandochau. Mae ein harsylwadau'n seiliedig ar y gweithgareddau roeddem ni'n disgwyl eu gweld ac a oedd y gweithgareddau hyn yn berthnasol i'r holl gleifion, i'r mwyafrif, i rai neu ddim o gwbl. Ar y diwrnod y bu i ni ymweld â'r Ysbyty Athrofaol, roedd prinder staff, a gallai hyn fod yn gyfrifol am rai o'r gwahaniaethau a welwyd gennym ar waith.

Ffigur 2: Camau allweddol a arsylwyd fel rhan o'r gwasanaeth amser cinio

| Arsylwadau o'r gwasanaeth amser cinio | Ysbyty Athrofaol | Llandochau |
|---|---|---|
| Roedd cleifion yn cael cymorth i baratoi at brydau bwyd, gan gynnwys mynd i'r tŷ bach, golchi dwylo ac eistedd i fyny neu godi o'r gwely | Mwyafrif | Pawb |
| Tacluso'r ardal/byrddau wrth ymyl y gwely cyn gweini prydau bwyd | Mwyafrif | Pawb |
| Gwastraff clinigol yn cael ei glirio o'r ardal/byrddau wrth ymyl y gwely | Rhai | Pawb |
| Staff arlwyo'r ward yn gwisgo dillad diogelwch | Pawb | Pawb |
| Tymheredd y prydau bwyd yn cael ei gofnodi cyn cychwyn gweini | Pawb | Pawb |
| Staff nyrsio'n mynd o gwmpas gyda staff arlwyo'r ward wrth weini'r bwyd | Rhai (weithiau) | Pawb |
| Cleifion sydd angen help i fwyta'n hawdd eu hadnabod | Mwyafrif | Pawb |
| Y prydau'n cael eu rhoi o fewn cyrraedd cleifion | Mwyafrif | Pawb |
| Rhoi help llaw i dorri'r bwyd yn ddarnau neu i agor pecynnau | Pawb | Mwyafrif |
| Y cleifion sydd angen help yn ei gael yn gyflym | Rhai (weithiau) | Pawb |
| Staff nyrsio'n goruchwylio ac yn annog cleifion i fwyta yn ystod y pryd bwyd | Mwyafrif | Pawb |

Ffynhonnell: Arsylwadau Swyddfa Archwilio Cymru o wasanaethau amser cinio

**44.** Mae’r Bwrdd Iechyd yn asesu cydymffurfiaeth â hylendid bwyd ac arferion gweini bwyd disgwyliedig a phrofiad y claf yn rheolaidd. Mae tîm amlddisgyblaeth o uwch-nyrsys, a staff deietegol ac arlwyo’n asesu cydymffurfiaeth yn erbyn rhestr wirio o ffactorau, megis cofnodi gwastraff bwyd, helpu cleifion i dorri eu bwyd a’i fwyta, a chofnodi tymheredd y bwyd. Mae staff y ward yn cael adborth ar unwaith gan y tîm archwilio. Mae’r arsylwadau amser cinio a nodir gennym uchod yn adleisio canfyddiadau archwiliadau amlddisgyblaeth diweddar yn Llandochau, yn enwedig y canlynol:

- roedd gwybodaeth dda gan staff arlwyo’r ward am anghenion deietegol cleifion a’u hoffterau;
- darparodd staff arlwyo’r ward gymorth i fwyta trwy dorri’r bwyd yn ddarnau ac agor pecynnau;
- cynorthwyodd ymwelwyr ar y ward y cleifion i fwyta;
- roedd ardaloedd o’r ward weithiau braidd yn anniben fel ei bod yn anodd i staff arlwyo’r ward weini’r prydau bwyd;
- cynlluniau gwelyau maeth a hydradu heb eu diweddaru bob tro neu wedi’u llenwi’n wael;
- roedd y cymorth nyrsio’n brin yn ystod gweini’r prydau bwyd.

## Mae egwyddorion amserau bwyd wedi’u sefydlu’n ehangach na chynt

**45.** Mae’r safon ar gyfer amserau bwyd wedi’u diogelu yn ymddangos ym ‘Mholisi Maeth ac Arlwyo Cleifion Mewnol’ y Bwrdd Iechyd. Ar y pedair ward y bu i ni arsylwi’r broses gweini cinio, gwelsom arwyddion wrth fynedfa’r wardiau yn egluro diben amserau bwyd wedi’u diogelu a’r amserau roedd hyn ar waith. Ar un ward, roedd poster a thaflenni’n nodi diben yr amserau bwyd wedi’u diogelu ar gyfer cleifion, ymwelwyr a staff. I bob diben, cydymffurfiwyd â’r amserau bwyd wedi’u diogelu gyda gweithgarwch clinigol anhanfodol yn ‘dod i ben’ cyn dechrau gweini’r bwyd. Roedd y pedwar rheolwr ward y bu i ni eu cyfarfod yn hyderus bod amserau bwyd wedi’u diogelu’n gweithio’n dda a bod cydweithwyr proffesiynol yn cefnogi’r egwyddorion. Brecwast oedd yr un pryd bwyd a oedd yn fwy o her i reolwyr wardiau allu sicrhau cydymffurfiaeth â’r amserau bwyd wedi’u diogelu. Yn ystod ein hymweliadau â wardiau gwelsom y canlynol:

- I bob diben byddai staff gofal iechyd proffesiynol yn gadael ardaloedd y wardiau ar ddechrau’r gwasanaeth bwyd, ond os oedden nhw’n aros ar y ward bydden nhw’n gadael llonydd i’r cleifion a’r staff nyrsio ar y cyfan. Yn yr Ysbyty Athrofaol roedd fferyllydd yn adolygu siartiau meddyginiaeth cleifion ac yn siarad â chleifion am eu meddyginiaeth. Ar yr ail ward yn yr Ysbyty Athrofaol roedd staff nyrsio’n dosbarthu meddyginiaeth heb ffws a ffwdan, gan gynnwys darparu atchwanegiadau maethol ar bresgripsiwn, cyn bod y troli bwyd yn dod o gwmpas.

- Roedd gwaith glanhau yn parhau yng nghoridorau'r wardiau yn ystod y gwasanaeth bwyd ar un ward yn yr Ysbyty Athrofaol ond nid oedd neb yn glanhau wrth ymyl gwelyau'r cleifion. I bob diben nid oedd y gwaith glanhau yn amharu ar lwybr y troli fwyd.
- Ar un ward yn Llandochau, cyrhaeddodd peiriannydd ar ddechrau'r gwasanaeth bwyd i wirio gwaith trwsio ond nid oedd y gwaith hwn yng nghyffiniau ardaloedd y cleifion ac nid oedd ei bresenoldeb yn effeithio ar y gwasanaeth bwyd.

**46.** Canfu'r tîm corfforaethol a oedd yn cynnal arsylwadau ar y ward fel rhan o archwiliad Hanfodion Gofal 2014 fod yr amserau bwyd wedi'u diogelu yn cael 'sylw priodol' mewn rhai ardaloedd gyda heriau penodol adeg brecwast. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnwys gwybodaeth am amserau bwyd wedi'u diogelu ar hysbysfyrddau'r wardiau ac yn y llawlyfr i gleifion.

## Mae cost gwasanaethau arlwyo i gleifion yn cael ei rheoli'n well ond mae'r incwm o wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn parhau'n annigonol

**47.** Yn 2010, roedd gwybodaeth ariannol am wasanaethau arlwyo fel rheol yn wael ac, os oedd yn bodoli o gwbl, roedd yn dangos amrywiadau sylweddol o ran cost o fewn a rhwng sefydliadau'r GIG. Prin oedd yr ysbytai a lwyddai i greu digon o incwm i adennill holl gostau darparu gwasanaethau arlwyo i bobl nad ydynt yn gleifion a phrin oedd cyrff y GIG â pholisi cytûn ar roi cymhorthdal. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylid datblygu model clir ar gyfer costio gwasanaethau arlwyo i gleifion a phobl nad ydynt yn gleifion. Cytunodd cyrff y GIG yng Nghymru yn 2012 i weithredu model wedi'i gostio newydd ar gyfer gwasanaethau arlwyo fel rhan o'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS) a gefnogir gan ddiffiniadau data a ddiwygiwyd. Prin yw'r cynnydd a wnaed o ran trosglwyddo systemau arlwyo o bapur i gyfrifiadur ac roedd y rhan fwyaf o'r systemau rheoli gwybodaeth arlwyo cyfredol yn dibynnu ar brosesau papur sy'n cael eu cwblhau â llaw.

**48.** Ar yr un pryd, roedd cyrff y GIG yn mabwysiadu mesurau i reoli costau gwasanaethau arlwyo. Roedd lle, serch hynny, i wneud rhagor o ddefnydd o ryseitiau safonol wedi'u costio, cytuno ar lwfans bwyd a diod i gleifion, safoni contractau arlwyo lleol a lleihau gwastraff bwyd, a oedd yn annerbyniol o uchel. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai sefydliadau'r GIG geisio sicrhau nad oedd gwastraff yn fwy na 10 y cant. O ganlyniad, pennodd Llywodraeth Cymru darged gwastraff bwyd o 10 y cant ar gyfer prydau heb eu gweini, i'w gyflawni erbyn diwedd 2012-13.

## Mae cost gwasanaethau arlwyo i gleifion yn lleihau a chost prydau fesul claf yn cymharu'n dda â chyrff eraill y GIG

**49.** Mae cyflwyniadau data EFPMS y Bwrdd Iechyd yn dangos gostyngiad o un flwyddyn i'r llall rhwng 2011-12 a 2013-14 gyda chostau'n gostwng 42 y cant, o £7.85 miliwn i £4.54 miliwn (Ffigur 3). Ar draws holl gyrff y GIG, lleihaodd cost gwasanaethau arlwyo i gleifion bump y cant. Mae ein dadansoddiad o'r data EFPMS yn awgrymu bod costau arlwyo i gleifion wedi lleihau yn y Bwrdd Iechyd wrth i gostau'r ddarpariaeth a chostau elfennau heblaw bwyd leihau. Yn y cyfamser, cafwyd gostyngiad o 18 y cant, o 1.96 miliwn o brydau yn 2011-12 i 1.61 miliwn o brydau yn 2013-14, yn nifer y prydau bwyd y gofynnwyd amdanynt gan gleifion, o gymharu â gostyngiad o bedwar y cant ledled Cymru.


Ffigur 3: Mae costau gwasanaethau arlwyo i gleifion yn lleihau

| Blwyddyn | Cost gwasanaethau arlwyo (£ miliwn) | |
|---|---|---|
| | Caerdydd a'r Fro | Cymru |
| 2011-12 | 7.85 | 38.95 |
| 2012-13 | 5.31 | 37.26 |
| 2013-14 | 4.54 | 36.97 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiad ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru 2012-13 a data ategol 2013-14

**50.** Canfu ein gwaith dilynol yn 2013 fod y Bwrdd Iechyd wedi gosod targed na fyddai unrhyw bryd yn costio mwy na £2.93 y claf. Dangosodd dadansoddiad o'r data EFPMS ar gyfer 2013-14 fod prydau'n costio £2.82 y claf, o fewn tri y cant i gost targed y Bwrdd Iechyd, ar ôl i'r gost leihau o £4.00 yn 2011-12. Mae cost prydau fesul claf yn yr Ysbyty Athrofaol a Llandochau yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysbytai (Ffigur 4).

Ffigur 4: Mae cost prydau fesul claf y Bwrdd Iechyd yn is na'r gost gyfartalog ar gyfer ysbytai acíwt




Ffynhonnell: Data ategol 2013-14 Perfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru

**51.** Yn 2010, roedd trefniadau cynhyrchu bwyd y Bwrdd Iechyd yn dibynnu'n helaeth ar systemau papur â llaw yn hytrach na TG. Yn ei adroddiad cenedlaethol, argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai cyrff y GIG gyflwyno systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol ac mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG wedi datblygu achos busnes bras dros gaffael system TG genedlaethol ar gyfer arlwyo. Canfu ein harchwiliad diweddaraf fod cyrff y GIG, yn cynnwys y Bwrdd Iechyd, wedi cynnig sylwadau ar yr achos busnes bras a bod y Bwrdd Iechyd yn aros am y canlyniad cyn gwneud unrhyw benderfyniad i fuddsoddi mewn system TG leol.

**52.** Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses o weithredu safonau maeth ac arlwyo 2011, lansiwyd Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan ym mis Ionawr 2013. Mae ryseitiau yn y fframwaith bwydlenni wedi'u costio. Cytunodd pob bwrdd iechyd i fynd ati ar y cyd i ariannu penodi deietegydd caffael sy'n gweithio ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG – Gwasanaeth Caffael. Nod y swydd yw cynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu contractau caffael Cymru gyfan i ddod o hyd i nwyddau ar gyfer y prydau ar y fframwaith bwydlenni. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at grŵp fframwaith bwydlenni Cymru gyfan a'r grŵp nwyddau Cymru gyfan i fynd i'r afael â materion caffael, yn cynnwys datblygu contractau i brynu cynnyrch lleol gan gyflenwyr lleol.

## Mae canllawiau clir ar yr hyn sy'n cyfrif fel prydau heb eu gweini a gwastraff ar blât, ac mae'r gwastraff sydd heb ei weini yn is na'r targed cenedlaethol

**53.** Yn 2010, roedd lefelau gwastraff bwyd heb ei weini yn uchel ar rai wardiau ar draws y Bwrdd Iechyd ac roedd angen gwelliannau i fesur gwastraff bwyd heb ei weini yn gywir. Erbyn ein hadolygiad dilynol yn 2013, roedd y Bwrdd Iechyd wedi datblygu trefniadau ar gyfer monitro gwastraff bwyd ac roedd gwastraff yn lleihau. Mae adborth rheolaidd gan gleifion ar ansawdd prydau yn awgrymu nad oedd y camau a gymerwyd i leihau gwastraff wedi effeithio'n andwyol ar ansawdd a dewis.


**54.** Mae gan y Bwrdd Iechyd ganllawiau clir ar yr hyn sy'n cyfrif fel gwastraff prydau heb eu gweini a gwastraff ar blât. Gwastraff heb ei weini (neu wastraff troli) yw'r elfen brotein o'r bwyd na chafodd ei gweini o'r trolis bwyd, a gwastraff ar blât (neu wastraff prydau) yw'r elfen brotein o'r pryd a gaiff ei gweini i'r cleifion ond nid ei bwyta. Caiff elfen brotein prydau ei chofnodi ar ôl gweini pob pryd ac mae'r dangosyddion hyn yn cael eu monitro'n lleol.

**55.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro gwastraff bwyd o brydau heb eu gweini a gwastraff ar blât. Yn 2014-15, roedd maint y gwastraff bwyd o brydau heb eu gweini a gwastraff ar blât yn llai yn 10 y cant ym mhob ysbyty o gymharu â 39 y cant adeg ein harchwiliad yn 2010. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn fwy na tharged lleol y Bwrdd Iechyd, sef pump y cant. Mae'r dull aml-ddisgyblaeth o gynnal archwiliadau adeg prydau bwyd yn sicrhau bod problemau gwastraff yn cael eu datrys ar y cyd.

**56.** Mae'r DVD hyfforddiant 'Come dine with us …' yn dangos bod cynnig 'rhagor' yn helpu i leihau gwastraff ac yn sicrhau bod anghenion maethol cleifion yn cael eu diwallu. Er na welsom 'rhagor' yn cael ei gynnig wrth ymweld â wardiau, mae dull archwilio gwasanaeth amser bwyd y Bwrdd Iechyd yn chwilio am dystiolaeth fod prydau heb eu gweini sy'n weddill ar ôl gorffen gweini yn cael eu cynnig i gleifion. Mae'r dull archwilio gwasanaeth prydau bwyd hefyd yn casglu gwybodaeth am nifer y dognau o fwyd sy'n cael eu coginio a'u gwastraffu, yn cynnwys yr elfen brotein, tatws a llysiau, a phwdin. Os yw cynlluniau gwelyau maeth a hydradu yn gyfredol, dylid archebu a choginio'r cyfanswm cywir o fwyd, gan helpu i leihau gwastraff. Mae data gwastraff y Bwrdd Iechyd ar gyfer mis Mai 2015 yn dangos bod 13 y cant o ddognau bwyd wedi cael eu gwastraffu.

**57.** Mae dadansoddiad o ddata EFPMS 2013-14 yn dangos bod prydau heb eu gweini wedi costio £169,659 i'r Bwrdd Iechyd, sy'n gyfystyr â dau y cant o'r holl gostau arlwyo. Roedd y gost yn amrywio rhyw ychydig rhwng ysbytai ond roedd cyfran y gost ar gyfer prydau heb eu gweini ar ei huchaf yn yr Ysbyty Athrofaol (2.9 y cant), bron teirgwaith y ffigur ar gyfer Llandochau (1.1 y cant) ac yn uwch o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer ysbytai (Ffigur 5).

Ffigur 5: Mae cost gwastraff bwyd yn Ysbyty Athrofaol Cymru bron deirgwaith y gost yn Llandochau ac yn uwch o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer ysbytai




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata ategol 2013-14 Perfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru

## Mae cost gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn parhau i wneud colled ariannol ond mae'r blwch rhwng y gost a'r incwm yn lleihau


**58.** Yn 2010, nid oedd gan y Bwrdd Iechyd bolisi cymorthdalu ar waith ond roedd gwasanaethau arlwyo yn llwyddo i dalu am y costau ac roedd ei wasanaethau bwyty yn gwneud colled o £342,000. Bryd hynny, ein hargymhelliad oedd y dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno polisi cymorthdalu clir er mwyn sefydlu'r fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion. Erbyn ein harchwiliad dilynol yn 2013, roedd y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i leihau'r cymhorthdal ar gyfer y gwasanaeth i'r rhai nad ydynt yn gleifion gyda'r grŵp cymhorthdal bwytai nad ydynt ar gyfer cleifion. Roedd camau'n cynnwys cyflwyno cyfrifon elw a cholled ar gyfer monitro bwytai unigol, a lleihau oriau agor bwytai a nifer y staff arlwyo. Yn y cyfamser, cafodd perfformiad bwytai ei fonitro'n fisol drwy gyfarfodydd cyllid gyda'r rheolwyr gwasanaeth perthnasol.

**59.** Roedd disgwyl i'r camau wedi'u cynllunio leihau'r bwlch rhwng costau gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion a'r incwm a gynhyrchir, a'r nod yn y pen draw oedd y byddai pob bwyty yn gallu talu ei gostau erbyn diwedd 2012-13. Adeg ein gwaith dilynol yn gynnar yn 2013, roedd y Bwrdd Iechyd wedi rhagamcanu diffyg o £158,000 mewn incwm i dalu costau gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion. Ddiwedd mis Mawrth 2013, roedd y diffyg yn £279,000 ond mae data EFPMS ar gyfer 2013-14 yn dangos bod y bwlch rhwng cost ac incwm yn parhau i leihau. Mae sôn bod tiliau newydd ym mwytai'r Bwrdd Iechyd yn gwella gwybodaeth reoli ac yn helpu i reoli stoc.

**60.** Ledled Cymru, nid oedd yr incwm a gynhyrchwyd gan wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn ddigon i dalu costau gweithredu yn unrhyw un o gyrff y GIG yn 2013-14 (Ffigur 6). Yn y Bwrdd Iechyd, mae cost gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion a'r incwm a gynhyrchir wedi bod yn lleihau (Ffigur 7). Yn 2013-14, roedd cyfanswm cost y gwasanaethau hyn yn £1.9 miliwn ac roedd yr incwm a gynhyrchwyd yn ddigon i dalu 88 y cant o'r costau hyn. Mae hyn yn gyfystyr â chymhorthdal o ryw £221,000. Mae dadansoddiad o'r data EFPMS yn dangos bod costau staff ar gyfer gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion wedi lleihau ar yr un pryd ag y mae nifer y staff yn cynyddu.

**61.** Adeg ein gwaith maes, roedd y Bwrdd Iechyd yn crynhoi'r data EFPMS 2014-15 i'w gyflwyno i Bartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG; gallai'r data hwn ddangos gwelliannau pellach. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos ei fod yn ystyried gwahanol fodelau darparu a phroffidioldeb cysylltiedig, yn enwedig ar gyfer y bwyty yn yr Ysbyty Athrofaol, a lle mae adeiladau newydd yn newid y seilwaith, er enghraifft, yn Llandochau.

Ffigur 6: Nid yw sefydliadau'r GIG yn cynhyrchu digon o incwm i dalu costau darparu gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion; mae diffyg o 12 y cant mewn incwm yn y Bwrdd Iechyd




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata ategol 2013-14 Perfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru

Ffigur 7: Mae cost gwasanaethau arlwyo'r Bwrdd Iechyd i'r rhai nad ydynt yn gleifion a'r incwm a gynhyrchir yn lleihau

| Blwyddyn | Caerdydd a'r Fro | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cost gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion | Incwm | Cost gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion | Incwm |
| | (£ miliwn) | | | |
| 2011-12 | 2.23 | 1.76 | 15.05 | 11.20 |
| 2012-13 | 2.00[1] | 1.72 | 14.50[1] | 11.53 |
| 2013-14 | 1.91[1] | 1.69 | 13.43[1] | 11.26 |

[1] Yn cynnwys cost rhentu peiriannau gwerthu.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Adroddiad ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru 2012-13 a data ategol 2013-14

## Mae trefniadau ar gyfer cynllunio, monitro ac adrodd ar wasanaethau maeth ac arlwyo mewn ysbytai yn gyffredinol gadarn

**62.** Yn 2010, roedd bodolaeth strategaethau a chynlluniau wedi'u diweddaru i roi polisïau cenedlaethol ar waith mewn perthynas ag arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai yn dameidiog, ac roedd angen cysoni trefniadau yn dilyn ad-drefnu'r GIG yn 2009 mewn nifer o gyrff y GIG. Roedd angen dull mwy cynhwysfawr a chydlynol er mwyn canfod barn cleifion a theuluoedd a dylanwadu ar gynlluniau a datblygiadau. Ychydig iawn o wybodaeth a gawsai byrddau'r GIG am ddarpariaeth a pherfformiad gwasanaethau arlwyo a materion yn ymwneud â maeth cleifion. Ni chafodd gwybodaeth o'r broses sgrinio maethol ei choladu fel bod modd deall maint y broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau. Mewn rhai o gyrff y GIG, gallai cyfrifoldebau gweithredol dros arlwyo a maeth fod yn fwy clir.

**63.** Yn y Bwrdd Iechyd bryd hynny, roedd cyfrifoldeb gweithredol dros arlwyo a maeth wedi'i nodi'n glir ac roedd strategaethau a pholisïau cadarn, a ddatblygwyd gan staff amlddisgyblaeth priodol, ar waith. Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth roedd y Bwrdd yn ei chael am wasanaethau arlwyo a maeth, ac roedd gwahanol fecanweithiau ar gyfer cael adborth gan gleifion yn golygu nad oedd barn cleifion yn cael ei choladu mewn modd effeithiol er mwyn llywio cynlluniau. Canfu ein gwaith dilynol yn y Bwrdd Iechyd yn 2013 fod dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u datblygu a'u gweithredu ond nid oedd y llinell adrodd o grwpiau gorchwyl a gorffen yn ymwneud ag arlwyo drwy ei Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo.

### Mae trefniadau sefydlog ar waith drwy Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo er mwyn sicrhau bod polisïau a safonau cenedlaethol yn cael eu gweithredu

**64.** Mae 'Polisi Maeth ac Arlwyo Cleifion Mewnol' y Bwrdd Iechyd yn datgan yn glir bod gan y sefydliad gyfrifoldeb cyfunol i ddiwallu anghenion maeth a hydradu cleifion gan yr adrannau hynny sy'n rhan o'r gadwyn fwyd, o gynhyrchu bwyd i helpu cleifion i fwyta, i'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi dull amlddisgyblaeth o ddiwallu anghenion gyda'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo yn rhoi sicrwydd a goruchwyliaeth. Mae'r grŵp hwn, a gadeiriwyd gan Gyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd, yn cynnwys aelodaeth eang o uwch staff o blith disgyblaethau perthnasol ac aelod o'r cyngor iechyd cymuned. Mae gan y grŵp raglen eang o waith, yn cynnwys monitro cydymffurfiaeth â safonau maeth ac arlwyo cleifion mewnol, fframwaith bwydlenni Cymru gyfan, arwain ar weithredu'r safon iechyd a gofal ar faeth a hydradu, adolygu canfyddiadau o archwiliadau amlddisgyblaeth o amserau bwyd ac adborth cleifion ar wasanaethau bwyd a diod i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth yn ôl yr angen.

## Mae trefniadau corfforaethol ar gyfer monitro'r llwybr gofal maethol ac ansawdd bywyd wedi'u hen sefydlu ond mae gwybodaeth am wastraff a chostau yn llai gweladwy

**65.** Mae grŵp strategaeth arlwyo a'i is-grwpiau (y gweithgor maeth ac arlwyo a'r grŵp bwydlenni cleifion) bellach yn adrodd yn uniongyrchol i'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo. Mae'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo yn parhau i adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf gyda'r papur mwyaf diweddar i'r pwyllgor yn tynnu sylw at feysydd allweddol ar gyfer gwella gofal maeth sy'n ymwneud â'r safonau Iechyd a Gofal.

**66.** Mae'r Bwrdd yn parhau i dderbyn adroddiad rheolaidd ar gydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethol ac adborth cleifion ar wasanaethau bwyd. Mae gwybodaeth am wastraff bwyd a chostau gwasanaethau arlwyo yn llai gweladwy ar lefel gorfforaethol ac, yn hytrach, mae'n cael ei monitro a'i hadrodd ar lefel adrannau. Nid yw'r Bwrdd Iechyd, yr un fath â chyrff eraill y GIG, wedi mynd ati hyd yma i goladu gwybodaeth o'r broses sgrinio maethol yn rheolaidd er mwyn deall nifer y cleifion a nodir fel rhai sydd â phroblemau maeth pan gânt eu derbyn i'r ysbyty. Mae anghenion maeth a hydradu cleifion wedi'u cynnwys ar fframwaith risg a sicrwydd corfforaethol y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod rheolaethau a mecanweithiau sicrwydd digonol ar gael ac er mwyn nodi camau gweithredu ar gyfer lleihau risgiau.

**67.** Bu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf, drwy'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo, yn monitro cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiadau lleol a chenedlaethol ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai. Pan roedd y pwyllgor yn sicr bod cynnydd digonol yn cael ei wneud, nid oedd gofyn i'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo ddarparu diweddariadau rheolaidd mwyach.

## Mae mecanweithiau effeithiol ar waith i gofnodi a gweithredu ar adborth cleifion ynghylch maeth ac arlwyo

**68.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau ei drefniadau ar gyfer rhannu barn cleifion rhwng staff nyrsio, deietegol ac arlwyo. Ers 2012, caiff cleifion ar wardiau eu gwahodd yn rheolaidd i gymryd rhan yn yr arolwg 'Dwy funud o'ch amser', sy'n cynnwys cwestiynau am y gwasanaethau bwyd. Caiff sylwadau cleifion eu rhannu drwy'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo amlddisgyblaeth a'i is-grwpiau, a'u hadrodd ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r archwiliadau amlddisgyblaeth o amserau bwyd yn rhoi cyfleoedd hefyd i gael darlun 'amser real' o brofiadau cleifion ac i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau ar unwaith.

**69.** Adeg ein gwaith maes, roedd grŵp fframwaith bwydlenni Cymru gyfan yn cynnal arolwg holiadur ymysg cleifion mewnol yn holl gyrff y GIG ynghylch y dewis o fwyd ac ansawdd y bwyd. Penderfynodd y Bwrdd Iechyd gynnwys cwestiynau ychwanegol am y dewis ar y fwydlen a oedd yn berthnasol i'w wasanaethau lleol. Dosbarthodd staff deietegol yr arolygon i 800 o gleifion ar draws ei ysbytai, ac mae'n ymddangos bod hyn wedi sicrhau cyfradd ymateb wych (96 y cant). Mae'r Bwrdd Iechyd yn aros am ganfyddiadau'r arolwg, a ddisgwylir ganol yr haf, ac yna gall ddechrau adolygu cylch y fwydlen a'r dewisiadau ynddi. Yn y cyfamser, mae nifer y cwynion ffurfiol yn isel iawn ar y cyfan. Cafodd y Bwrdd Iechyd chwe chŵyn ffurfiol yn 2014-15 o gymharu â'r 1.6 miliwn o brydau a baratowyd.

# Atodiad 1

## Dull yr archwiliad

Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn: 'A yw'r [Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd] wedi gweithredu'n llawn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer sicrhau gwelliannau o ran diwallu anghenion maethol cleifion a'u profiad adeg prydau bwyd, o ran rheoli costau arlwyo a chynllunio a monitro?' Cynhaliwyd nifer o weithgareddau archwilio gennym rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2015 i ateb y cwestiwn hwn. Mae manylion y rhain isod.

### Cyfweliadau ac adolygu dogfennau

Cynhaliwyd nifer o gyfweliadau gydag unigolion allweddol yn y Bwrdd Iechyd, yn cynnwys swyddogion, cynrychiolydd cleifion a rheolwyr wardiau. Aethom ati hefyd i adolygu nifer o ddogfennau, yn cynnwys adroddiadau gan sefydliadau allanol perthnasol eraill ac ymateb y [Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd] i'r adroddiadau hyn.

### Dadansoddi data

Bu i ni ddadansoddi'r data EFPMS ar gyfer 2012-13 a 2013-14, sef y data mwyaf diweddar. Cyflwynodd cyrff y GIG ddata 2014-15 i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Ystadau Arbenigol ddiwedd mis Mehefin. Bydd y data hwn ar gael ddiwedd mis Tachwedd 2015.

### Arsylwi ar wardiau

Bu i ni arsylwi ar y gwasanaeth bwyd amser cinio ar bedair ward, a ddewiswyd gan y Pennaeth Deieteg, i asesu:

- a oedd cleifion ac amgylchedd y ward yn cael eu paratoi ar gyfer amser bwyd;
- a oedd cleifion yn cael y pryd cywir;
- a oedd cleifion yn cael help i fwyta os oedd angen; a
- chydymffurfiaeth ag amserau bwyd wedi'u diogelu.

Ymwelwyd â wardiau C6 a B6 yn Ysbyty Athrofaol Cymru a wardiau E7 ac E8 yn Llandochau.

## Adolygu nodiadau cleifion

Aethom ati i adolygu nodiadau cleifion ar bob ward lle buom yn arsylwi ar y gwasanaeth bwyd amser cinio er mwyn asesu:

- a yw sgrinio maethol yn cael ei wneud gan ddefnyddio offeryn sgrinio dilys pan gaiff cleifion eu derbyn i'r ysbyty;
- a oedd gwybodaeth am bwysau, taldra, mynegai màs y corff (BMI), colli pwysau'n anfwriadol yn ddiweddar, archwaeth ar y pryd, cymeriant deietegol 'arferol', gofynion deietegol arbennig, y gallu i fwyta'n annibynnol, anawsterau wrth fwyta neu yfed a phroblemau gydag iechyd a hylendid y geg, yn cynnwys deintiad, wedi'i chofnodi; ac
- a oedd cynlluniau gofal ar waith ar gyfer y cleifion hynny a nodwyd fel rhai sydd â phroblemau maethol neu sydd â risg o'u datblygu, ac a gafodd cleifion a nodwyd fel rhai â risg eu hatgyfeirio am asesiad deietegol.

Bu i ni adolygu hyd at bum set o nodiadau cleifion wedi'i dewis gan uwch-nyrs ar ddyletswydd ar y wardiau i ni ymweld â nhw.

# Atodiad 2

## Argymhellion cenedlaethol a lleol

Mae Tabl 1 yn nodi'r 14 argymhelliad lleol yn ein hadroddiad a oedd yn crynhoi canfyddiadau ein gwaith archwilio yn 2010 ar wasanaethau arlwyo a maeth cleifion yn ysbytai'r Bwrdd Iechyd. Mae statws pob argymhelliad[7] wedi'i nodi hefyd yn Nhablau 1, 2 a 3.

Tabl 1: argymhellion lleol 2010

| Argymhelliad | | Statws – Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Cynllunio strategol a threfniadau rheoli** | | |
| A1 | Sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth fwy ystyrlon am y gwasanaethau arlwyo er mwyn gallu craffu, rheoli risgiau a monitro perfformiad yn effeithiol. | C |
| A2 | Fel rhan o'r broses o rymuso rheolwyr wardiau yn ôl trefniadau Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu, sefydlu fforwm hanfodion gofal effeithiol sy'n sicrhau bod materion rheoli maeth yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod yr enghreifftiau niferus o arfer da ac arloesi yn cael eu rhannu. | C |
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau** | | |
| A3 | Cyflwyno polisi clir ar gymorthdalu i bennu'r fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion. | C |
| A4 | Gwella'r trefniadau cyfredol ar gyfer monitro gwastraff bwyd fel eu bod yn rhoi adlewyrchiad cywir o brydau heb eu gweini, gan nodi'r potensial i wella systemau presennol fel bod modd gosod targedau gwastraff bwyd. | C |
| **Dosbarthu bwyd i'r ward** | | |
| A5 | Cynnwys maeth sylfaenol yn y rhaglen hyfforddi ar gyfer staff arlwyo ar y ward er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o'i bwysigrwydd a'r angen i ddilyn gweithdrefnau'r ward. | C |

[7] Mae (C) yn dangos bod yr argymhelliad wedi'i gyflawni, mae (A) yn dangos bod yr argymhelliad ar y llwybr iawn i gael ei gwblhau ac mae (N) yn dangos bod cynnydd annigonol neu ddim cynnydd wedi'i wneud.

| Argymhelliad | | Statws – Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad** | | |
| A6 | Cyflwyno amserau bwyd wedi'u diogelu ar bob ward lle byddai hynny'n briodol a sefydlu trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth. | C |
| A7 | Fel rhan o'r strategaeth maeth ac arlwyo newydd, gweld beth fyddai manteision gwneud mwy o ddefnydd o gynorthwywyr deietegol. | C |
| A8 | Fel rhan o'r strategaeth arlwyo newydd, ceisio cryfhau a chyflymu'r gwasanaeth amser bwyd drwy sicrhau bod mwy o staff ar gael neu drwy gael y staff nyrsio i gymryd mwy o ran. | C |
| A9 | Trwy'r fforwm hanfodion gofal, monitro effeithiolrwydd y system hambwrdd coch, y dull o'i weithredu a'i ddatblygiad, a'r systemau goleuadau traffig newydd. | O |
| A10 | Sefydlu trefniadau monitro sy'n mesur cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maeth yn rheolaidd, ynghyd ag effeithiolrwydd y broses o adolygu siartiau. | C |
| A11 | Gwella'r offeryn asesu maeth i gynnwys asesiad o iechyd y geg a'r gallu i gyfathrebu. | N |
| A12 | Yn Llandochau, gwella prosesau cyfathrebu a threfniadau monitro ansawdd y gwasanaeth arlwyo i sicrhau bod cleifion yn derbyn y pryd o fwyd cywir ar gyfer eu hanghenion deietegol bob amser. | C |
| **Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth** | | |
| A13 | Gwella'r broses o rannu gwybodaeth rhwng y gwasanaeth arlwyo a rheolwyr wardiau drwy gynnwys y trefniadau presennol sy'n cael eu defnyddio i gael barn cleifion ar y gwasanaeth. | C |
| A14 | Cynnwys cleifion yn y broses o ddatblygu'r gwasanaeth arlwyo gan adeiladu ar brofiadau cadarnhaol diweddar a gafwyd o'u cynnwys wrth werthuso bwyd piwrî a bwyd meddal. | C |

Mae Tabl 2 yn nodi'r 26 argymhelliad cenedlaethol a nodwyd yn adroddiad 2011 yr Archwilydd Cenedlaethol, a oedd yn berthnasol i gyrff y GIG sy'n cynnig gwasanaethau arlwyo i gleifion.

Tabl 2: argymhellion cenedlaethol 2011

| **Argymhelliad** | | **Statws – Gorffennaf 2015** |
|---|---|---|
| **Sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu** | | |
| A1b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG ddefnyddio'r canlyniadau a gyflwynwyd yn ein hadroddiadau archwilio lleol fel sail dros sicrhau eu bod yn gweithredu Llwybr Gofal Maeth Cymru gyfan yn effeithiol; yn benodol mae'n rhaid iddynt sicrhau bod prosesau sgrinio maethol yn nodi'n effeithiol bob claf sydd â phroblemau maeth, neu sy'n wynebu risg o'u datblygu, a bod cynlluniau gofal a gweithgareddau monitro priodol yn cael eu sefydlu. | A |
| A1c | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG archwilio cydymffurfiaeth â phob agwedd ar y llwybr gofal maeth yn rheolaidd ar bob un o'u safleoedd a rhannu canlyniadau'r ymarferion monitro â phob grŵp staff perthnasol sy'n ymwneud â gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion. | C |
| A1d | Lle nodir cydymffurfiaeth wael â gofynion y llwybr gofal maeth, argymhellwn y dylai cyrff y GIG ganfod y rhesymau dros hyn, a rhoi cynlluniau gweithredu clir ar waith i fynd i'r afael â'r broblem; dylai hyn gynnwys rhoi hyfforddiant angenrheidiol i staff. | C |
| A1e | Argymhellwn y dylai fod gan gyrff y GIG drefniadau ar waith i sicrhau bod bwyd ar gael i gleifion 24 awr y dydd; dylai byrbrydau fod yn rhan o'r trefniadau hyn a dylai cleifion gael gwybod pa fyrbrydau sydd ar gael iddynt, a phryd. | A |
| A2a | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG gymryd camau i sicrhau bod pob bwydlen a ddefnyddir yn eu hysbytai wedi cael ei hasesu o ran maeth gan ddeietegwyr. | C |
| **Gwella profiad cleifion o amser bwyd** | | |
| A3a | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG sicrhau bod eu bwydlenni yn cynnig dewis priodol o fwyd a bod y trefniadau ar gyfer archebu a gweini bwyd yn cefnogi dewis digonol i gleifion. | A |
| A3b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG adolygu eu harferion ar lefel ward er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu helpu i fod yn gyfforddus cyn cael eu bwyd, ac yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn i'r pryd o fwyd gael ei weini. | A |
| A3c | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG barhau i gyflwyno'r polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu i gymaint o wardiau â phosibl, gan gyfleu ei bwysigrwydd I bob grŵp staff perthnasol sy'n gweithio yn yr ysbyty, ac adolygu cydymffurfiaeth â'r polisi'n rheolaidd. | C |

| Argymhelliad | | Statws – Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo** | | |
| A4b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG gyflwyno systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol, wedi'u hategu gan ddadansoddiad clir o gost a budd o'u cymharu â'r systemau gwybodaeth presennol â llaw. | N |
| A5a | Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o'r ryseitiau safonol wedi'u costio. | C |
| A5b | Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o'r lwfans bwyd a diod dyddiol i gleifion. | C |
| A5c | Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o'r contractau arlwyo lleol safonol ar gyfer yr un cynhyrchion neu gynhyrchion tebyg ym mhob un o'u hysbytai. | C |
| A6a | Argymhellwn y dylid pennu targedau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwastraff bwyd; fel canllaw dylai sefydliadau'r GIG anelu at sicrhau nad yw gwastraff o brydau bwyd nas gweinwyd yn fwy na 10 y cant. | C |
| A6b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG fonitro gwastraff bwyd yn rheolaidd yn unol â chanllawiau clir ar yr hyn sy'n bryd o fwyd heb ei weini, a dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i lunio cymariaethau ystyrlon yn lleol ac yn genedlaethol. | C |
| A6c | Argymhellwn y dylai'r gwaith o fonitro gwastraff bwyd gynnwys nodi'r rhesymau dros y gwastraff a welir, a dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella systemau a phrosesau sy'n achosi'r gwastraff. | C |
| A6d | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG bwysleisio i'w staff fod rheoli gwastraff bwyd yn gyfrifoldeb ar bawb a dylai staff arlwyo a staff wardiau gydweithio i fynd i'r afael â'r broblem. | C |
| A7a | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG bennu polisïau prisio a thargedau cynhyrchu incwm sydd â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn adennill costau o leiaf, neu, os nad ydynt yn gwneud hynny, bod hynny o ganlyniad i bolisi cymorthdalu bwriadol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad manwl o gostau. | A |
| A7b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG fonitro incwm a gwariant ar wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn perfformio'n ariannol yn ôl y disgwyl ac nad oes diffygion ariannol annerbyniol. | C |

| Argymhelliad | | Statws – Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol** | | |
| A8b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG sicrhau bod ganddynt gynlluniau a gweithdrefnau cyfoes sy'n nodi'r trefniadau lleol ar gyfer gweithredu gofynion polisi cenedlaethol a sicrhau bod gwasanaethau arlwyo a maeth, hyd y gellir, wedi'u safoni ar draws sefydliadau'r GIG, yn enwedig lle mae ad-drefnu'r GIG wedi dwyn ynghyd nifer o wahanol fodelau gwasanaeth o dan un sefydliad. | C |
| A8c | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG sicrhau fod cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr gweithredol dros arlwyo a maeth wedi'u diffinio'n glir, a lle mae dau neu fwy o gyfarwyddwyr gweithredol yn gyfrifol, dylai fod trefniadau penodol ar gyfer cynllunio a monitro gwasanaethau mewn ffordd gydgysylltiedig. | C |
| A9c | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o ddata'r EFPMS fel ffordd o reoli a monitro eu gwasanaethau arlwyo a maeth. | C |
| A10a | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG ddatblygu ffordd fwy cynhwysfawr o gofnodi perfformiad gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion i'r Bwrdd sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am weithredu'r llwybr gofal maeth a data perfformiad ar gostau gwasanaethau i gleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion, gwastraff bwyd, ac adborth gan gleifion a'u perthnasau; dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn a dylai wneud defnydd priodol o ddata meincnodi EFPMS. | C |
| A10b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG goladu gwybodaeth o sgrinio maethol yn systematig am nifer y cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod yn wynebu risg o gael problemau maeth er mwyn deall maint y broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau arlwyo a maeth i ddiwallu anghenion y cleifion hyn. | N |
| A11a | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth am farn cleifion ar wasanaethau arlwyo rhwng prif nyrsys a'r gwasanaeth arlwyo. | C |
| A11b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG ddangos sut y maent wedi ystyried barn cleifion wrth ddatblygu eu gwasanaethau arlwyo a maeth. | C |
| A11c | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG bennu ffyrdd o gynnwys cleifion mewn gweithgareddau sy'n asesu ansawdd gwasanaethau arlwyo a maeth. | C |

Mae Tabl 3 yn nodi'r saith argymhelliad lleol a nodir yn ein hadroddiad sy'n crynhoi canfyddiadau ein gwaith archwilio dilynol ar wasanaethau arlwyo a maeth cleifion yn ysbytai'r Bwrdd Iechyd yn 2013.

Tabl 3: argymhellion lleol 2013

| Argymhelliad | | Statws – Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Cynllunio strategol a threfniadau rheoli** | | |
| A1 | Yn dilyn adolygiad diweddar y pwyllgor, dylai BIP sicrhau bod y llinellau adrodd ar gyfer y grwpiau maeth ac arlwyo allweddol, gan gynnwys y Grŵp Cymhorthdal Bwytai nad ydynt ar gyfer Cleifion a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Lleihau Gwastraff Bwyd, yn dwyn ynghyd yr holl faterion sy'n ymwneud â maeth ac arlwyo ac yn creu llinell adrodd unigol i'r Bwrdd. | C |
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau** | | |
| A2 | Dylai'r Grŵp Cymhorthdal Bwytai nad ydynt ar gyfer Cleifion ganolbwyntio mwy ar ddangosyddion perfformiad allweddol er mwyn cyrraedd y targed o gymhorthdal sero ar gyfer gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion. | A |
| A3 | Fel rhan o'r gwaith o leihau gwastraff bwyd, dylai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Lleihau Gwastraff Bwyd sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar ansawdd fel nad yw lleihau gwastraff yn cael effaith niweidiol ar ansawdd bwyd. | C |
| **Dosbarth bwyd i'r ward** | | |
| A4 | Er mwyn helpu i gyflwyno hyfforddiant ar gyfer staff arlwyo ar y ward, dylai'r Bwrdd ddatblygu trefniant dirprwyo i sicrhau bod yr amserlen hyfforddiant yn parhau os yw staff yn sâl. | C |
| A5 | Mae'n rhaid i BIP ganolbwyntio mwy ar y cynllun gweithredu Hanfodion Gofal sy'n deillio o archwiliadau amser bwyd, er mwyn sicrhau bod amser bwyd wedi'i ddiogelu yn cael ei sefydlu'n llawn ar bob ward. | C |
| **Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad** | | |
| A6 | Dylai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau sefydlu asesiad parhaus o'r manteision o helpu i fwydo cleifion amser bwyd drwy swydd fel cynorthwyydd deietegol neu gynorthwyydd gofal iechyd. | C |
| A7 | Dylai'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo ystyried canfyddiadau cynllun peilot yr offer archwilio fel mater o flaenoriaeth fel bod modd cyflwyno trefniadau monitro ar draws y wardiau mewn modd amserol. | C |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru